**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (TRENCHARD DRIVE, LLANISIEN, CAERDYDD) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") i awdurdodi cau'r darnau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn ac i ddarparu ar gyfer y darnau o briffordd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn. Nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn gwneud y datblygiad yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran 3 o Ddeddf 1990 gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar 28 Mai 2021 o dan y cyfeirnod 20/02068/MJR ac a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Bydd Gorchymyn Cau Priffyrdd (Trenchard Drive, Llanisien, Caerdydd) 2023 ("y Gorchymyn"), os caiff ei wneud, yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio mewn cysylltiad â'r datblygiad i ben neu os caiff ei ddirymu.

Gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim, a thrwy apwyntiad yn unig, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Hyb Llanisien, 11 Station Road, Caerdydd, CF14 5LS.

Fel arall, gellir cael copïau yn rhad ac am ddim oddi wrth Lywodraeth Cymru o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1479132, neu gellir eu gweld ar lein ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-cau.

Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn, ar y sail:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf 1990; neu

b. na chydymffurfiwyd ag un o ofynion gweithdrefnol Deddf 1990;

o fewn 6 wythnos i 12 Mehefin 2023, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwnnw.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990**

**THE STOPPING UP OF HIGHWAYS (TRENCHARD DRIVE, LLANISHEN, CARDIFF) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") to authorise the stopping up of the lengths of highway described in Schedule 1 to this Notice and to provide for the lengths of new highway described in Schedule 2 to this Notice. The stopping up is authorised only in order to enable the development to be carried out in accordance with planning permission granted under Part 3 of the 1990 Act by the City and Council of Cardiff Council on 28 May 2021 with reference number 20/02068/MJR and described in Schedule 3 to this Notice.

The Stopping Up of Highways (Trenchard Drive, Llanishen, Cardiff) Order 2023 ("the Order") ceases to have effect if planning permission in respect of the development expires or is revoked.

Copies of the Order and the deposited plan may be inspected free of charge, and by appointment only during normal office hours at Llanishen Hub, 11 Station Road, Cardiff, CF14 5LS.

Alternatively, copies may be obtained free of charge from the Welsh Government at the address below quoting reference qA1479132, or viewed online on the Welsh Government's website at https://gov.wales/stopping-orders.

If a person is aggrieved by the Order, on the grounds that:

a. it is not within the powers of the 1990 Act; or

b. a procedural requirement of the 1990 Act has not been complied with;

that person may, within 6 weeks of 12 June 2023 make an application for the purpose to the High Court.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1

**Y darnau o briffordd sydd i'w cau**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

1. Darn o briffordd (troetffordd) i'r dwyrain o'r bloc o fflatiau o'r enw 1–9 Hannah Close, Llanisien, Caerdydd, sy'n 22.4 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2.19 o fetrau yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra, ac y rhoddir y cyfeirnod 'A' iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ogleddol Trenchard Drive ac i'r dwyrain o Bader Close, Llanisien, Caerdydd, sy'n 1.46 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2.85 o fetrau yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra, ac y rhoddir y cyfeirnod 'D' iddo ar y plan a adneuwyd.

3. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd ar ochr ogleddol Trenchard Drive ac i'r gorllewin o Cheshire Close, Llanisien, Caerdydd sy'n 2.70 o fetrau yn y man hiraf ac yn 3.58 o fetrau yn y man lletaf, a ddangosir â llinellau sebra, ac y rhoddir y cyfeirnod 'E' iddo ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

**Y darnau newydd o briffordd sydd i'w darparu**
**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

1. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd (troetffordd) sy'n rhedeg i gyfeiriad y gogledd-orllewin o Crystal Glen, Llanisien, Caerdydd, sy'n 105 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2 fetr yn y man lletaf, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'B' iddo ar y plan a adneuwyd.

2. Darn afreolaidd ei siâp o briffordd (troetffordd) sy'n rhedeg i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain o Trenchard Drive, Llanisien, Caerdydd, sy'n 46 o fetrau yn y man hiraf ac yn 2 fetr yn y man lletaf, a ddangosir â dotwaith ac y rhoddir y cyfeirnod 'C' iddo ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 3

**Y Datblygiad**

Adeiladu 20 tŷ cyngor newydd, draenio cynaliadwy, gwaith plannu tirluniol a seilweithiau cysylltiedig.

## SCHEDULE 1

**Lengths of highway to be stopped up**
**(All measurements are approximate)**

1. A length of highway (footway) located to the east of the block of flats know as 1-9 Hannah Close, Llanishen, Cardiff, with a maximum length of 22.4 metres and a maximum width of 2.19 metres, shown by zebra hatching, and given the reference 'A' on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway located on the northern side of Trenchard Drive and east of Bader Close, Llanishen, Cardiff, with a maximum length of 1.46 metres and a maximum width of 2.85 metres, shown by zebra hatching, and given the reference 'D' on the deposited plan.

3. An irregular shaped length of highway located on the northern side of Trenchard Drive and west of Cheshire Close, Llanishen, Cardiff, with a maximum length of 2.70 metres and a maximum width of 3.58 metres, shown by zebra hatching, and given the reference 'E' on the deposited plan.

## SCHEDULE 2

**New lengths of highway to be provided**
**(All measurements are approximate)**

1. An irregular shaped length of highway (footway) running in a north-westerly direction from Crystal Glen, Llanishen, Cardiff, with a maximum length of 105 metres and a maximum width of 2 metres, shown by stipple hatching and given reference 'B' on the deposited plan.

2. An irregular shaped length of highway (footway) running in a north-easterly direction from Trenchard Drive, Llanishen, Cardiff, with a maximum length of 46 metres and a maximum width of 2 metres, shown by stipple hatching and given reference 'C' on the deposited plan.

## SCHEDULE 3

**The Development**

Construction of 20 new council homes, sustainable drainage, landscape plantingand associated infrastructures.